Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council



Cludiant Lleol Cynaliadwy mewn ymateb i Covid-19:

Monitro cymunedol – adroddiad data manwl

Cludiant Lleol Cynaliadwy mewn ymateb i Covid-19: Adroddiad monitro ymateb y gymuned

Cynnwys

Cynnwys 2

Pwrpas yr adroddiad 3

Cefndir y cynllun arfaethedig 3

Rhestr o fudd-ddeiliaid 1

Crynodeb o'r gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd hyd yn hyn 2

Crynodeb o ddata'r arolwg 2

Dadansoddiad o'r data meintiol 1

Crynodeb o'r holl ddata a dderbyniwyd yn yr arolwg preswylwyr/ymwelwyr 1

Arolwg busnes: 2

Dadansoddiad o'r data meintiol 2

Dadansoddiad o'r data ansoddol 1

Crynodeb o ddata ansoddol yr arolwg busnes 1

Cludiant Lleol Cynaliadwy mewn ymateb i Covid-19: Adroddiad monitro ymateb y gymuned

Pwrpas yr adroddiad

Amcan yr adroddiad hwn yw crynhoi'r ymatebion gan breswylwyr, ymwelwyr a chymuned fusnes Rhuthun a dderbyniwyd hyd yn hyn mewn ymateb i *Cludiant Lleol Cynaliadwy mewn ymateb i Covid-19* Llywodraeth Cymru.

NODYN PWYSIG: Digwyddodd yr ymgysylltu â'r gymuned rhwng 12 Tachwedd 2020 a 31 Ionawr 2021. Yn dilyn pryderon ynghylch y cynllun a godwyd mewn cyfarfod o Grŵp Aelodau Ardal Rhuthun, mae'r crynodeb data hwn wedi'i gasglu ar fyr rybudd (o fewn 48 awr i ddiwedd y broses casglu adborth). Bydd adroddiad data llawn, lle bydd sylwadau'r ymatebion (gwybodaeth ansoddol) wedi'u croesgyfeirio ymhellach yn erbyn atebion i gwestiynau aml-ddewis (gwybodaeth feintiol), yn cael ei ddarparu yn yr wythnosau nesaf.

Cefndir y cynllun arfaethedig

Ar 7 Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid ar gyfer cyflwyno mesurau trafnidiaeth leol gynaliadwy mewn ymateb i Covid-19 (7 Mai 2020) | LLYW.CYMRU ar gyfer yr hyn a alwyd ganddi'n 'fesurau cludiant lleol cynaliadwy mewn ymateb i Covid-19', gan ddweud "Rydym yn gofyn i awdurdodau lleol fynegi diddordeb cychwynnol erbyn 21 Mai er mwyn inni gael amcan o faint o gyllid y bydd ei angen. Byddwn yna yn gofyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl y gofyn er mwyn inni gael ystyried mwy ar y cynigion. Rydym yn rhagweld y bydd y mesurau'n cael eu cyflwyno o ddechrau'r haf ymlaen". Roedd angen i gynigion gynnwys mesurau dros dro i hwyluso cadw pellter cymdeithasol a theithio llesol, am gyfnod o hyd at 18 mis.

Cynhaliwyd ymgynghoriad byr ar-lein rhwng 9 a 24 Gorffennaf ynghylch cynlluniau dros dro yn Rhuthun, Dinbych, Llangollen a'r Rhyl. Derbyniodd yr ymgynghoriad ar gyfer Rhuthun gyfanswm o 606 o ymatebion, gyda thua 81% o ymatebwyr yn ymddangos eu bod o blaid y cynllun yn gyffredinol.

Sefydlwyd cynllun dros dro yn Rhuthun ym mis Hydref 20202, ac ar 12 Tachwedd 2020, lansiwyd arolwg 'adborth gan y gymuned' i gynorthwyo'r gwaith o fonitro'r cynllun ac ymateb y gymuned iddo.

Y bwriad yw cynnal arolygon mewn blociau o 8-10 wythnos tan y bydd y cynllun dros dro wedi dod i ben, fel y gellir monitro'r adborth mewn perthynas â ffactorau dylanwadol allanol megis cyfyngiadau cyfnodau clo, pa fusnesau sydd â hawl i fasnachu (a sut) ar adegau penodol, y tywydd, cynnydd y rhaglen frechu, ac yn y blaen.

Dylai monitro'r rhaglen gyda mewnbwn gan y gymuned yn y ffordd hon ganiatáu i benderfynwyr ddeall sut mae barn y gymuned yn cael ei siapio dros gyfnod o amser, yn hytrach na seilio penderfyniadau ar un set o ddata. Mae hyn yn cyd-fynd â dymuniad Llywodraeth Cymru y dylid sicrhau bod y cynllun yn darparu gwybodaeth sy'n cyfrannu at gludiant cynaliadwy/teithio llesol fel uchelgais gynaliadwy yn y tymor hirach.

Ni ddylid ystyried yr arolygon monitro fel 'ymgynghoriad' na phleidlais ar y cynllun ar hyn o bryd. Maent wedi'u dylunio i ddal teimladau'r gymuned, a gall penderfynwyr gynnwys y wybodaeth yma ynghyd â monitro pethau eraill megis data llygredd, arolygon llif traffig, nifer yr ymwelwyr sy'n gerddwyr, ac unrhyw bethau eraill yr ystyrir eu bod yn briodol.

Disgwylir i benderfynwyr gymryd eu hamser i archwilio a deall pwysigrwydd barn y gymuned a sicrhau ei bod yn cael ei hystyried yn briodol yng nghyd-destun mesurau eraill.

Rhestr o fudd-ddeiliaid

Mae'r rhestr o fudd-ddeiliaid y mae'r Cyngor wedi neu'n mynd i ymgysylltu â nhw ar wahanol adegau yn ystod oes y cynllun arfaethedig yn cynnwys:

- Cynghorwyr Sir Rhuthun
- Cyngor Tref Rhuthun
- Partneriaid mewn sefydliadau eraill, yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru
- Cymuned fusnes ehangach Rhuthun
- Cymuned breswyl Rhuthun

Mae'r adroddiad yn parhau ar y dudalen nesaf

Crynodeb o'r gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd hyd yn hyn

Hyd yma, mae'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori canlynol wedi'i gynnal:

Dyddiad	Crynodeb o'r gweithgarwch	Y budd-ddeiliaid cysylltiedig
19 Mehefin 2020	Cyfarfod cyntaf gweithgor 'Adfer Canol y Dref'	Gweithgor swyddogion mewnol (y Cyngor) yn bennaf
21 Mehefin 2020	Lansio arolygon barn cyhoeddus ar-lein i breswylwyr a busnesau, gyda golwg arbennig ar bryderon ynghylch Porthol Sgwrs y Sir Ddinbych | Denbighshire County Conversation Portal	Busnesau yn y Rhyl, Prestatyn, Rhuddlan, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun, Llangollen a Chorwen Ymwelwyr (lleol a heb fod yn lleol) â chanol y trefi a enwir uchod
9 Gorffennaf 2020	Lansio Porthol Sgwrs y Sir Ddinbych | Denbighshire County Conversation Portal ar gyfer cynigion Cludiant Lleol Cynaliadwy dros dro.	Cynghorwyr Sir Rhuthun, Cyngor y Dref, a chymuned fusnes a phreswyl ehangach Rhuthun
12 Tachwedd 2020	Lansio Porthol Sgwrs y Sir Ddinbych | Denbighshire County Conversation Portal ar gyfer cynllun Cludiant Lleol Cynaliadwy yn Rhuthun	Ymatebwyr yr ymgynghoriadau blaenorol ym mis Gorffennaf, aelodau *Y Panel* (panel dinasyddion ar-lein), aelodau sawl grŵp Facebook sydd wedi'u lleoli yn Rhuthun, cymuned ehangach Rhuthun (drwy wefan y Cyngor a'r wasg brint)

Crynodeb o ddata'r arolwg

Lansiwyd dau arolwg ar gyfer cymuned Rhuthun ar 12 Tachwedd 2020. Roedd y cyntaf wedi'i anelu at breswylwyr ac ymwelwyr, a hyd yma (25 Ionawr 2021) derbyniwyd 189 o ymatebion. Roedd yr ail arolwg wedi'i anelu at fusnesau, a hyd yma (25 Ionawr) derbyniwyd 22 o ymatebion, gan olygu bod cyfanswm yr ymatebion yn 211.

Arolwg Preswylwyr/Ymwelwyr – crynodeb o strwythur yr arolwg

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau amlddewis yn bennaf, naill ai rhai lle gellid rhoi un ymateb, neu roi pethau mewn trefn. Roedd y rhain yn ceisio canfod:

- I'r rhai oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad blaenorol, beth roedden nhw'n feddwl roedden nhw wedi'i ddweud cyn i'r cynllun gael ei sefydlu
- I'r rhai oedd wedi ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf 2020, sut maent yn teimlo am y cynllun nawr. Roedd hyn yn cynnwys adran sylwadau lle gallai ymatebwyr egluro'u hymatebion
- I'r holl ymatebwyr, sut maent yn teimlo am y cynllun ar y cyfan
- Adran 'sylwadau a safbwyntiau cyffredinol' lle gallai ymatebwyr ysgrifennu sylwadau ychwanegol

Arolwg preswylwyr/ymwelwyr – crynodeb o'r data meintiol

Proffil yr ymatebwyr: Gofynnwyd i'r ymatebwyr o ble roeddent yn dod.

Atebwyd y cwestiwn un ateb hwn gan 130 o bobl.		
Ymateb	Nifer yr ymatebwyr	Canran o'r ymatebwyr
Byw yn Rhuthun	169	89.42%
Yn ymweld â Rhuthun o rywle arall yn Sir Ddinbych	18	9.52%
Yn ymweld â Rhuthun o rywle arall yn y DU	2	1.06%

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2020 hefyd. Dywedodd tua 44% eu bod wedi gwneud hynny, a dywedodd tua 56% nad oeddent wedi gwneud hynny.

Dadansoddiad o'r data meintiol

Gofynnodd arolwg 'monitro' i'r bobl oedd wedi ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf 2020 geisio cofio beth roedden nhw wedi'i ddweud ar y pryd. Gofynnwyd i bob ymatebydd wedyn sut roedden nhw'n teimlo am y cynllun sydd yn ei le ar hyn o bryd. Roedd y cwestiynau ym mhob adran yn seiliedig ar y cwestiynau gwreiddiol a osodwyd yn ymgynghoriad mis Gorffennaf, sef:

- Mae/bydd lledu palmentydd wedi/yn gwneud gwneud cadw pellter cymdeithasol yn haws
- Mae/bydd creu llwybrau beiciau wedi/yn gwneud i fwy o bobl ddewis cerdded neu feicio o gwmpas Rhuthun
- Mae/bydd cefnogi caffis, tafarndai a bwytai i gyflwyno llefydd eistedd y tu allan wedi/yn gwneud i ganol y dref deimlo'n fwy croesawgar
- Mae/roedd cyflwyno system unffordd i alluogi'r newidiadau hyn i gael eu gwneud yn benderfyniad derbyniol

Consensws y mwyafrif: dim ond pan fydd 50% neu fwy o'r ymatebion i'r cwestiynau 'nawr fod y cynllun wedi'i sefydlu...' yn ffitio i'r categorïau cyffredinol cytuno/anghytuno/dim barn (neu ansicr) y bydd consensws mwyafrif.

Yn gyffredinol, ymatebodd 189 o bobl i'r arolwg. Darperir y nifer o bobl a atebodd bob cwestiwn unigol yn y tablau data.

Dadansoddiad o'r data ansoddol

Mae'r sylwadau wedi'u dadansoddi a'u dosbarthu i dri chategori cyffredinol, sef:

- Sylwadau cadarnhaol, a lle nodwyd ymhellach, elfennau unigol y cynllun
- Sylwadau negyddol, a lle nodwyd ymhellach, elfennau unigol y cynllun
- Sylwadau/awgrymiadau niwtral, a lle nodwyd ymhellach, manylion.

Mae sylwadau penodol wedi'u rhannu'n themâu megis "Cefnogaeth gyffredinol i elfen unffordd" neu "Anhoffter o estheteg" y cynllun. Bydd sylwadau megis "gwych" neu "cael gwared" heb gyfiawnhad pellach yn cael eu categoreiddio fel sylwadau 'cyffredinol'.

Dadansoddiad o'r data meintiol

Mae/bydd lledu palmentydd wedi/yn gwneud cadw pellter cymdeithasol yn haws						
	Yn ymgynghoriad mis Gorffennaf 2020		**Sut roedd ymatebwyr yn cofio ymateb i'r ymgynghoriad gwreiddiol**		**Sut mae ymatebwyr yn teimlo nawr fod y cynllun wedi'i sefydlu**	
	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion
Cytuno neu gytuno'n gryf	492	84.10%	60	78.92%	108	63.16%
Anghytuno neu anghytuno'n gryf	89	15.21%	15	19.72%	60	35.09%
Dim barn	4	0.68%	1	1.32%	3	1.75%

Mwyafrif (ymatebion dros 50%): **cytuno neu gytuno'n gryf** (o 13.16%)

Mae/bydd creu llwybrau beiciau wedi/yn gwneud i fwy o bobl ddewis cerdded neu feicio o gwmpas Rhuthun						
	Yn ymgynghoriad mis Gorffennaf 2020		**Sut roedd ymatebwyr yn cofio ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf**		**Sut mae ymatebwyr yn teimlo nawr fod y cynllun wedi'i sefydlu**	
	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion
Cytuno neu gytuno'n gryf	436	75.57%	57	74.03%	71	41.52%
Anghytuno neu anghytuno'n gryf	135	23.39%	19	24.68%	86	50.29%
Dim barn	6	1.04%	1	1.30%	14	8.19%

Mwyafrif (ymatebion dros 50%): **anghytuno neu anghytuno'n gryf** (o 0.29%)

Mae/bydd cefnogi caffis, tafarndai a bwytai i gyflwyno llefydd eistedd y tu allan wedi/yn gwneud i ganol y dref deimlo'n fwy croesawgar						
	Yn ymgynghoriad mis Gorffennaf 2020		**Sut roedd ymatebwyr yn cofio ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf**		**Sut mae ymatebwyr yn teimlo nawr fod y cynllun wedi'i sefydlu**	
	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion
Cytuno neu gytuno'n gryf	517	90.07	64	84.21%	75	43.86%
Anghytuno neu anghytuno'n gryf	52	9.06%	12	15.78%	73	43%
Dim barn	5	0.87%	0	0.00%	23	13.45%

Mwyafrif (ymatebion dros 50%): **dim** Yr agosaf at fwyafrif yw 'Cytuno neu gytuno'n gryf' o 0.86%

Mae/roedd cyflwyno system unffordd i alluogi'r newidiadau hyn i gael eu gwneud yn benderfyniad derbyniol						
	Yn ymgynghoriad mis Gorffennaf 2020		**Sut roedd ymatebwyr yn cofio ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf**		**Sut mae ymatebwyr yn teimlo nawr fod y cynllun wedi'i sefydlu**	
	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion
Cytuno neu gytuno'n gryf	462	80.92%	64	84.21%	90	53.25%
Anghytuno neu anghytuno'n gryf	104	18.22%	12	15.78%	77	45.56%
Dim barn	5	0.88%	0	0.00%	2	1.18%

Cludiant Lleol Cynaliadwy mewn ymateb i Covid-19: Adroddiad monitro ymateb y gymuned

Mwyafrif (ymatebion dros 50%): **cytuno neu gytuno'n gryf** (o 3.25%)

Sut oeddech chi'n mynd i'r dref cyn y cynllun?	Nifer yr ymatebwyr	% o'r ymatebwyr
Gyrru a pharcio ar y stryd	40	23.90%
Gyrru a pharcio mewn maes parcio	66	38.60%
Cerdded neu feicio	65	38.01%
Cludiant Cyhoeddus	0	0%

Mwyafrif (ymatebion dros 50%): **gyrru** (o 12.5%)

Ydi'r ffordd yr ydych chi'n mynd i'r dref wedi newid?	Nifer yr ymatebwyr	% o'r ymatebwyr
Gwneud mwy o deithio llesol	26	16.15%
Teithio yn yr un ffordd, ond yn teimlo'n fwy diogel	68	42.24%
Teithio yn yr un ffordd, ond heb deimlo'n ddiogel	55	34.16%
Gwneud llai o deithio llesol	12	7%

Mwyafrif (ymatebion dros 50%): **teimlo'n fwy diogel ar y cyfan** (o 8.39%)

Sut ydych chi'n teimlo am y cynllun nawr ei fod wedi'i sefydlu?	Nifer yr ymatebwyr	% o'r ymatebwyr
Rhy gynnar i ddweud	25	14.70%
Yn gweithio'n dda	66	38.82
Ddim yn gweithio'n dda	79	46.47%

Mwyafrif (ymatebion dros 50%): **dim** Yr agosaf at fwyafrif yw **ddim yn gweithio'n dda** o 7.76%

Dadansoddiad o'r data meintiol

Mae'r data meintiol yn awgrymu y gallai fod gefnogaeth i elfennau unigol o'r cynllun, gyda'r categorïau o ymatebion yn cyrraedd mwyafrif **cefnogol** o dros 50%:

- Lledu palmentydd
- Mae'r cynllun yn gweithio'n dda ar y cyfan
- Mae mynd i'r dref yn teimlo'n fwy diogel yn gyffredinol (i'r rhai sy'n dewis gwneud mwy o deithio llesol ac i'r rhai nad ydynt wedi newid eu harferion teithio)

Cafodd yr elfen ganlynol o'r cynllun ymateb **anghefnogol**

- Mae'r cynllun wedi arwain at fwy o bobl yn dewis dulliau teithio llesol

Ni chafwyd **mwyafrif clir** yn yr ymatebion i elfennau canlynol y cynllun:

- Mae cefnogi caffis, tafarndai a bwytai i gyflwyno llefydd eistedd y tu allan wedi gwneud i'r dref deimlo'n fwy croesawgar.
- Mae'r cynllun yn gweithio'n dda ar y cyfan

- Dadansoddiad o'r data ansoddol

Roedd dau gwestiwn 'ymateb agored' yn yr arolwg monitro preswylwyr/ymwelwyr.

Mae'r sylwadau a roddwyd wedi'u dadansoddi a'u dosbarthu i gategorïau cyffredinol, sef:

- Sylwadau cadarnhaol, a lle nodwyd ymhellach, elfennau unigol y cynllun
- Sylwadau negyddol, a lle nodwyd ymhellach, elfennau unigol y cynllun
- Sylwadau/awgrymiadau niwtral, a lle nodwyd ymhellach, manylion.

Y cwestiwn cyntaf oedd: *"A hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ynghylch eich ateb(ion) [i'r cwestiynau amlddewis] uchod?"* Cafwyd 124 ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda chyfanswm o 276 o sylwadau (cymedr o 2.26 sylw i bob ymatebydd). Rhoddodd 44 o ymatebwyr (36% o'r cyfanswm) sylwadau mewn mwy nag un categori (cadarnhaol, negyddol neu niwtral). Rhoddodd y 64% arall sylwadau mewn un categori yn unig (cadarnhaol, negyddol neu niwtral).

Yr ail gwestiwn oedd: *"Hoffech chi gynnig unrhyw sylwadau eraill?"* Cafwyd cyfanswm o 107 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Yn anffodus roedd tri sylw'n mynd yn groes i bolisi 'dim goddefgarwch' y Cyngor o ran sylwadau difrïol, sarhaus, niweidiol neu ddifenwol, ac ni chânt eu hystyried. Mae atebion yr ymatebwyr hyn i'r cwestiynau amlddewis wedi'u cyfri. O'r 104 ymateb sy'n weddill, derbyniwyd 194 o sylwadau (cymedr o 1.59 sylw i bob ymatebydd). Rhoddodd 47 o ymatebwyr (45% o'r cyfanswm sy'n weddill) sylwadau mewn mwy nag un categori (cadarnhaol, negyddol neu niwtral). Rhoddodd y 57 ymatebydd arall sylwadau mewn un categori yn unig (cadarnhaol, negyddol neu niwtral).

Roedd rhai sylwadau yn cynnwys datganiadau megis "mae'r cynllun yn gweithio'n dda" neu "dydw i ddim yn ei hoffi". Ond lle bo hynny'n bosibl, mae'r sylwadau ychwanegol a roddwyd gan ymatebwyr wedi'u dosbarthu i gategorïau bras. Darperir esboniad byr o bob categori ynghyd â nifer y sylwadau yn y categori hwnnw.

SYLWER: oherwydd maint y tablau, fe'u cyflwynir fel delweddau. Darperir testun amgen.

Manylion arsylwadau cadarnhaol/cefnogol mewn adran arolwg 'sylwadau pellach ar y cynllun hwn'				Manylion arsylwadau cadarnhaol/cefnogol yn adran 'unrhyw sylwadau terfynol' o'r arolwg		
thema'r sylw	**nifer y sylwadau**	**canran (%) o gyfanswm yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau**		**thema'r sylw**	**nifer y sylwadau**	**canran (%) o gyfanswm yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau**
Cefnogi elfen un ffordd y cynllun	20	16.13%		Cymorth ar gyfer amcanion Teithio Llesol / ecogyfeillgar y cynllun dros dro	15	14.42%
Cymorth ar gyfer amcanion Teithio Llesol / ecogyfeillgar y cynllun dros dro	18	14.52%		Cefnogi elfen un ffordd y cynllun	13	12.50%
Cymorth ar gyfer palmentydd a lonydd beicio ehangach	15	12.10%		Cymorth ar gyfer palmentydd a lonydd beicio ehangach	10	9.62%
Yn teimlo bod y cynllun wedi gwella diogelwch ar y ffyrdd yn gyffredinol	15	12.10%		Cymorth ar gyfer diwylliant caffi allanol/awyr agored	4	3.85%
Cymorth ar gyfer diwylliant caffi allanol/awyr	9	7.26%		Yn teimlo bod y cynllun wedi gwella	4	3.85%
Yn credu bod cadw pellter cymdeithasol yn haws nawr	4	3.23%		Yn credu bod cadw pellter cymdeithasol yn haws nawr	3	2.88%
Teimlo bod gweledded i gerddwyr wedi gwella mewn ardaloedd cynllun dros dro	1	0.81%		Teimlo bod y dref yn edrych yn brysurach o ganlyniad i gynllun dros dro	1	0.96%
CYFANSWM Y MANYLION CADARNHAOL	**82**	**66.15%**		**CYFANSWM Y MANYLION**	**50**	**48.08%**

Arsylwadau: yn y tri chategori uchaf o ran sylwadau cadarnhaol, roedd y cwestiwn cyntaf a’r ail gwestiwn yn ymwneud â chefnogaeth gyffredinol i deithio llesol ac amcanion y cynllun dros dro o ran yr amcan hwn a’r amcanion eraill; cefnogaeth i balmentydd lletach a lonydd beicio; a chefnogaeth i elfen unffordd y cynllun.

Cludiant Lleol Cynaliadwy mewn ymateb i Covid-19: Adroddiad monitro ymateb y gymuned

Eglurodd 24 o ymatebwyr eu sylwadau drwy esbonio'u hamgylchiadau personol. Roedd 13 o'r rhain yn cefnogi teithio llesol gan eu bod yn gerddwyr, rhedwyr neu feicwyr, roedd 10 yn rhieni/gofalwyr plant ifainc, neu'n defnyddio pramiau. Roedd dau yn bobl hŷn (neu'n ymateb ar ran rhywun hŷn).

Manylion arsylwadau negyddol/anghynnigol mewn adran arolwg 'sylwadau pellach ar y cynllun hwn'		
thema'r sylw	**nifer y sylwadau**	**canran (%) o gyfanswm yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau**
Nid oedd ymatebwyr yn hoffi esthetig y cynllun	33	26.61%
Roedd ymatebwyr yn poeni am gyflymder cerbydau ar y gerbytffordd ehangach, gan boeni am feiciwr a rennir/gofod i gerddwyr/pryderon eraill ynghylch diogelwch ar y ffyrdd	25	20.16%
Roedd ymatebwyr yn poeni am effaith negyddol ar y cynllun i fasnachwyr, a/neu wneud danfoniadau	19	3.93%
Nid oedd ymatebwyr yn cefnogi elfen un ffordd o'r cynllun dros dro	10	8.06%
Mynegodd ymatebwyr bryderon am arwyddion cynllun dros dro, a/neu amlygrwydd bolardiau	6	4.84%
Roedd ymatebwyr yn poeni am golli parcio ar y stryd (yn enwedig parcio i'r anabl)	6	4.84%
Yn gyffredinol, nid yw ymatebwyr yn hoffi beicwyr	2	1.61%
Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol i'r cynllun i ddechrau ond newidiodd eu meddwl	2	1.61%
CYFANSWM Y MANYLION NEGYDDOL	**103**	**71.66%**

Manylion arsylwadau negyddol/anghynnigol yn adran 'unrhyw sylwadau terfynol' o'r arolwg		
thema'r sylw	**nifer y sylwadau**	**canran (%) o gyfanswm yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau**
Nid oedd ymatebwyr yn hoffi esthetig y cynllun	21	20.19%
Roedd ymatebwyr yn poeni am gyflymder cerbydau ar y gerbytffordd ehangach, gan boeni am feiciwr a rennir/gofod i gerddwyr/pryderon eraill ynghylch diogelwch ar y ffyrdd	15	14.42%
Roedd ymatebwyr yn poeni am effaith negyddol ar y cynllun i fasnachwyr, a/neu wneud danfoniadau	11	10.58%
Nid oedd ymatebwyr yn cefnogi elfen un ffordd o'r cynllun dros dro	1	0.96%
Roedd ymatebwyr yn poeni am golli parcio ar y stryd (yn enwedig parcio i'r anabl)	1	0.96%
Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol i'r cynllun i ddechrau ond newidiodd eu meddwl	1	0.96%
CYFANSWM Y MANYLION NEGYDDOL	**50**	**48.07%**

Arsylwadau: y tri chategori uchaf ar gyfer sylwadau negyddol oedd estheteg y cynllun, pryderon am gyflymder traffig yn yr ardaloedd unffordd newydd (yn bennaf oherwydd fod lled mwy y lôn gerbydau, a'r lleihad yn y bathodynnau glas a'r parcio anghyfreithlon ar linellau melyn, yn cael gwared ar fesurau gostegu traffig anfwriadol).

Manylion arsylwadau/awgrymiadau niwtral yn adran 'unrhyw sylwadau		
thema'r sylw	**nifer y sylwadau**	**canran (%) o gyfanswm yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau**
Awgrymiadau ar gyfer gwaith AT/diogelwch ar y ffyrdd pellach yn ardal bresennol y cynllun dros dro	16	12.90%
Teimlo ei bod yn rhy fuan i ddweud / hoffi gweld elfennau heb eu archwilio o'r cynllun ar waith cyn barnu (e.e. seddau y tu allan, ymlacio ar ganllawiau aros gartref)	16	12.90%
Awgrymiadau teithio llesol/diogelwch ar y ffyrdd eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'r cynllun dros dro	13	10.48%
Hoffent weld parcio ychwanegol, yn hytrach na llai o barcio ar strydoedd yr effeithir arnynt	6	4.84%
CYFANSWM Y MANYLION NIWTRAL	**51**	**41.12%**

Manylion arsylwadau/awgrymiadau niwtral yn adran 'unrhyw sylwadau		
thema'r sylw	**nifer y sylwadau**	**canran (%) o gyfanswm yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau**
Awgrymiadau teithio llesol/diogelwch ar y ffyrdd eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'r cynllun dros dro presennol	19	18.27%
Awgrymiadau ar gyfer gwaith AT/diogelwch ar y ffyrdd pellach yn ardal bresennol y cynllun dros dro	18	17.31%
Teimlo ei bod yn rhy fuan i ddweud / hoffi gweld elfennau heb eu archwilio o'r cynllun ar waith cyn barnu (e.e. seddau y tu allan, ymlacio	11	10.58%
Hoffent weld parcio ychwanegol, yn hytrach na llai o barcio ar strydoedd yr effeithir arnynt	4	3.85%
CYFANSWM Y MANYLION NIWTRAL	**52**	**50.01%**

Arsylwadau**: roedd y tri chategori uchaf o ran sylwadau/awgrymiadau niwtral yn cynnwys awgrymiadau am welliannau i ardal gyfredol y cynllun dros dro, megis cynnig terfyn cyflymder is neu gyflwyno mesurau gostegu traffig yn Stryd y Farchnad, Stryd y Ffynnon neu stryd gyfagos; awgrymiadau am flaenoriaethau teithio llesol mewn ardaloedd eraill yn Rhuthun a'r ardal, megis cysylltu llwybrau gwledig rhwng pentrefi neu i ysgolion; a nifer o sylwadau yn awgrymu ei bod yn 'rhy gynnar i ddweud' i sicrwydd a oedd y cynllun yn gweithio'n dda. Roedd y sylwadau hyn yn cyd-fynd â chefnogaeth gadarnhaol i lefydd eistedd y tu allan/diwylliant caffis, ac angen am weld rhai busnesau sydd wedi bod ynghau am y rhan fwyaf o'r cyfnod casglu data yn agor eto cyn barnu'r cynllun yn ei gyfanrwydd.**

Crynodeb o'r holl ddata a dderbyniwyd yn yr arolwg preswylwyr/ymwelwyr

Ar y cyfan, ymddengys fod mwyafrif bychan o blaid amcanion y cynllun a hyd yn oed elfennau unigol ohono.

O'r ymatebwyr a gynigiodd sylwadau, cynigiodd tua 2 ym mhob 5 sylwadau mewn mwy nag un categori, sy'n awgrymu nad oes hoffter cyffredinol o'r cynllun y naill ffordd na'r llall (cefnogir hynny gan y data meintiol sy'n awgrymu, er bod y mwyafrif yn cefnogi rhai elfennau o'r cynllun, na chafwyd mwyafrif clir pan ofynnwyd i ymatebwyr sut roedden nhw'n meddwl yr oedd y cynllun yn gweithio).

Roedd y bobl a roddodd sylwadau mewn mwy nag un categori'n rhannu'n fras yn ddau grŵp:

- Cefnogwyr y cynllun dros dro a hoffai weld y Cyngor yn mynd ymhellach
- Pobl sy'n cefnogi amcanion y cynllun neu elfennau penodol o'r cynllun ond yn teimlo nad yw'n gweithio ar y cyfan yn ei ffurf bresennol

Yn y ddau achos roedd o leiaf un sylw cadarnhaol ac un sylw negyddol, fel arfer, ac yna o leiaf un awgrym ynghylch sut i wella Rhuthun.

Ymddengys fod cefnogaeth gref i'r hyn y gellir ei alw'n elfennau 'rheoli cyrchfan' y cynllun dros dro – roedd dros 43% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn teimlo bod cyflwyno llefydd i eistedd y tu allan wedi gwneud i'r dref deimlo'n fwy croesawgar, er gwaetha'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r sector lletygarwch wedi bod ynghau am y rhan fwyaf o gyfnod casglu data'r arolwg hwn ac nad oes unrhyw fusnes wedi cyflwyno llefydd i eistedd y tu allan hyd yn hyn.

Ymddengys hefyd fod cefnogaeth i gadw'r system unffordd a'r troedffyrdd lletach gyda gwaith cyfalaf.

Mae pryderon mawr am estheteg y cynllun, gyda llawer o'r rhai a wnaeth sylwadau ynghylch yr estheteg yn awgrymu bod y bolardiau'n benodol yn edrych yn 'hyll' a'u bod wedi achosi perygl o faglu mewn ambell achos gan nad yw'n hawdd gweld y 'traed'.

Arolwg busnes:

Fel gyda'r arolwg i breswylwyr/ymwelwyr, gofynnwyd i ymatebwyr roi gwybod inni sut roedden nhw wedi ymateb yn yr ymgynghoriad blaenorol (os oedden nhw wedi gwneud hynny) a byddai'u barn bryd hynny'n cael ei chymharu â'u barn bresennol ar y cynllun. Ni chasglwyd data ar wahân ar gyfer busnesau yn ymgynghoriad mis Gorffennaf felly nid yw'n bosibl cymharu'r ymatebion yn uniongyrchol.

SYLWER: roedd gweithgarwch ymgysylltu ychwanegol wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn newydd er mwyn sicrhau bod busnesau yn Stryd y Farchnad a Stryd y Ffynnon yn benodol yn gallu ymgysylltu â'r broses adborth/monitro. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl gwneud hynny gan fod cyfnod clo newydd ar gyfer Cymru wedi'i gyhoeddi ar 19 Rhagfyr. Gellir ailadrodd yr arolwg gyda'r busnesau hyn drwy'r post.

Dadansoddiad o'r data meintiol

Ymatebodd 22 o bobl i'r arolwg busnes. Nid atebwyd pob cwestiwn gan bawb.

Nododd 19 leoliad eu busnes yn Rhuthun, ac o'r rheini: Roedd 10 (52.63%) ar stryd yr effeithiwyd arni'n uniongyrchol gan y cynllun dros dro, ac roedd naw mewn lleoliadau eraill yn Rhuthun.

Dywedodd wyth (40%) o'r ymatebwyr eu bod hefyd wedi ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf 2020, a dywedodd 12 (60%) ohonynt nad oeddent wedi gwneud hynny.

SYLWER: cyflwynir y tablau data ar gyfer y data meintiol gyda chanrannau. Fodd bynnag, oherwydd y gyfradd ateb isel (fel canran o holl fusnesau Rhuthun neu'r cyffiniau), **ni ddylid** ystyried y canlyniadau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol, ac ni ddarperir ymatebion neu sylwadau'r mwyafrif ar gyfer yr ymatebion hyn.

Mae/bydd lledu palmentydd wedi/yn gwneud cadw pellter cymdeithasol yn haws				
	Sut roedd ymatebwyr yn cofio ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf		**Sut mae ymatebwyr yn teimlo nawr fod y cynllun wedi'i sefydlu**	
	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion
Cytuno neu gytuno'n gryf	5	83.33%	6	35.29%
Anghytuno neu anghytuno'n gryf	1	16.67%	11	64.71%
Dim barn	0	0.00%	0	0.00%

Mae/bydd creu llwybrau beiciau wedi/yn gwneud i fwy o bobl ddewis cerdded neu feicio o gwmpas Rhuthun				
	Sut roedd ymatebwyr yn cofio ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf		**Sut mae ymatebwyr yn teimlo nawr fod y cynllun wedi'i sefydlu**	
	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion
Cytuno neu gytuno'n gryf	3	50.00%	3	17.65%
Anghytuno neu anghytuno'n gryf	3	50.00%	13	76.47%
Dim barn			1	5.88%

Mae/bydd cefnogi caffis, tafarndai a bwytai i gyflwyno llefydd eistedd y tu allan wedi/yn gwneud i'r dref deimlo'n fwy croesawgar				
	Sut roedd ymatebwyr yn cofio ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf		**Sut mae ymatebwyr yn teimlo nawr fod y cynllun wedi'i sefydlu**	
	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion
Cytuno neu gytuno'n gryf	4	66.66%	5	29.41%
Anghytuno neu anghytuno'n gryf	2	33.34%	11	64.70%
Dim barn	0	0	1	5.88%

Mae/roedd cyflwyno system unffordd i alluogi'r newidiadau hyn i gael eu gwneud yn benderfyniad derbyniol				
	Sut roedd ymatebwyr yn cofio ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf		**Sut mae ymatebwyr yn teimlo nawr fod y cynllun wedi'i sefydlu**	
	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion
Cytuno neu gytuno'n gryf	3	50.00%	5	29.41%
Anghytuno neu anghytuno'n gryf	3	50.00%	12	70.59%
Dim barn	0	0.00%	0	0.00%

Ar y cyfan, ydych chi'n teimlo bod y cynllun wedi cael:	Nifer yr ymatebion	% o'r ymatebion
Effaith gadarnhaol ar Ruthun ac effaith gadarnhaol ar fy musnes	4	23.53%
Effaith gadarnhaol ar Ruthun ond effaith negyddol ar fy musnes		
Dim effaith ar Ruthun a dim effaith ar fy musnes	1	5.88%
Effaith negyddol ar Ruthun ond effaith gadarnhaol ar fy musnes		
Effaith negyddol ar Ruthun ac effaith negyddol ar fy musnes	12	70.59%

Dadansoddiad o'r data ansoddol

Fel yn achos y data meintiol, mae'r nifer o ymatebion a dderbyniwyd yn rhy isel i gael ei ystyried yn arwyddocaol yn ystadegol, ac mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried nad yw llawer o fusnesau yn Rhuthun wedi cael cyfle i gael profiad o'r system unffordd na chyfle i ymateb i'r arolwg oherwydd cyfnod clo Llywodraeth Cymru. Gellid cywiro hyn mewn arolygon yn y dyfodol (yn enwedig os bydd cyfyngiadau'r cyfnod clo presennol yn llacio gan alluogi swyddogion i ymweld â busnesau a siarad â'r perchnogion).

Ar y cyfan, rhoddodd 13 o ymatebwyr 24 o sylwadau yn yr arolwg busnes, cymedr o 1.84 sylw am bob ymatebydd.

Darparwyd cyfiawnhad pellach gan 10 o'r 13 ymatebydd, gyda dau ymatebydd yn cynnig sylwadau mewn mwy nag un categori.

Manylion sylwadau cadarnhaol/cefnogol yn adran 'unrhyw sylwadau eraill' yr arolwg		
Testun	**Nifer y sylwadau**	**% o'r holl ymatebwyr a wnaeth sylw**
Cefnogaeth gyffredinol i'r elfen unffordd	2	15.38%
CYFANSWM Y MANYLION CADARNHAOL	**2**	**15.38%**

Arsylwadau: cefnogaeth gyffredinol i'r elfen unffordd yw'r unig gategori o sylwadau cadarnhaol a ddiffiniwyd ymhellach gan unrhyw un o'r ymatebwyr.

Manylion y sylwadau negyddol/anghefnogol yn adran ‘unrhyw sylwadau eraill’ yr arolwg		
Testun	**Nifer y sylwadau**	**% o’r holl ymatebwyr a wnaeth sylw**
Pryder am gyflymder cerbydau ar lonydd cerbydau lletach, pryder am ofod sy’n cael ei rannu gan feicwyr a cherddwyr, a phryderon eraill am ddiogelwch ar y ffyrdd	8	61.54%
Ddim yn hoff o estheteg y cynllun	6	46.15%
Pryder am effaith negyddol y cynllun ar fasnachwyr, a/neu wneud danfoniadau	1	7.69%
Pryderon am weledigedd arwyddion/bolardiau	1	7.69%
Ddim yn gweld budd penodol i’w busnes	1	7.69%
CYFANSWM Y MANYLION NEGYDDOL	**17**	**130.76%**

Arsylwadau: i’r ymatebwyr a wnaeth sylwadau, mae pryderon am ddiogelwch ar y ffyrdd yn flaenoriaeth, gydag estheteg y cynllun yn eilbeth, a chafodd pob un o’r sylwadau negyddol eraill yr un faint o ymatebion.

Manylion y sylwadau/awgrymiadau niwtral yn adran ‘unrhyw sylwadau eraill’ yr arolwg		
Testun	**Nifer y sylwadau**	**% o’r holl ymatebwyr a wnaeth sylw**
Awgrymiadau ynghylch gwaith pellach o ran teithio llesol / diogelwch ar y ffyrdd yn ardal y cynllun dros dro cyfredol	1	7.69%
Teimlo’i bod yn rhy gynnar i ddweud / hoffent weld elfennau eraill y cynllun yn cael eu gweithredu cyn barnu (e.e. llefydd eistedd y tu allan / llacio'r canllawiau i aros gartref)	1	7.69%
CYFANSWM Y MANYLION NIWTRAL	**2**	**15.38%**

Arsylwadau: ni nodwyd unrhyw flaenoriaethau gwirioneddol yng nghyd-destun yr awgrymiadau neu’r sylwadau niwtral a wnaed gan ymatebwyr busnes.

Crynodeb o ddata ansoddol yr arolwg busnes

Nid oedd y sylwadau a nodwyd gan yr ychydig fusnesau a allodd ymateb yn wahanol iawn i’r sylwadau a nodwyd gan breswylwyr / ymwelwyr â Rhuthun.